County Hall
Cardiff
CF10 4UW
Tel: (029) 2087 2000

Neuadd y Sir
Caerdydd
CF10 4UW
Ffôn: (029) 2087 2000

# AGENDA

| | |
|---|---|
| **Pwyllgor** | PWYLLGOR YMGYNGHOROL RHIANTA CORFFORAETHOL |
| **Dyddiad ac amser y cyfarfod** | DYDD MAWRTH, 17 HYDREF 2017, 2.00 PM |
| **Lleoliad** | YSTAFELL BWYLLGORA 4 - NEUADD Y SIR |
| **Aelodaeth** | Cynghorydd Merry (Cadeirydd)<br>Cynghorwyr Davies, Hinchey, Jenkins, Lent, Lister, Molik, Walker a/ac Weaver |

## 1 Ymddiheuriadau am Absenoldeb

Derbyn ymddiheuriadau am absenoldeb.

## 2 Cadeirydd

I nodi bod y Cyngor yn ei gyfarfod ar 28 Mehefin 2017 wedi ethol y Cynghorydd Sarah Merry yn Gadeirydd y Pwyllgor hwn ar gyfer Blwyddyn Drefol 2017-2018.

## 3 Aelodaeth a Chylch Gorchwyl

I nodi bod y Cyngor yn ei gyfarfod ar 28 Medi 2017 wedi ail-gadarnhau'r Aelodaeth ganlynol:

Y Cynghorwyr Davies, Hinchey, Jenkins, Lent, Lister, Merry, Molik, Walker a Weaver.

I nodi yng Nghyfarfod Blynyddol y Cyngor ar 25 Mai 2017, y cytunwyd ar y Cylch Gorchwyl canlynol:

(a) Hyrwyddo gwelliannau gwirioneddol a pharhaus o ran sicrhau cyfleoedd gwell i Blant sy'n Derbyn Gofal, Plant mewn Angen, Pobl Ifanc sy'n Derbyn Gofal a phlant a phobl ifanc yn y system cyfiawnder troseddol ac i weithio ar sail rhaglen flynyddol at y diben hwnnw:

(b) Llunio, monitro ac adolygu strategaeth rhianta corfforaethol, a sicrhau y caiff honno ei rhoi ar waith yn effeithiol drwy gynlluniau gwaith a rhaglenni hyfforddiant rhianta corfforaethol.

(c) Ceisio manteisio i'r eithaf ar gyfleoedd bywyd Plant sy'n Derbyn Gofal, Plant

mewn Angen a Phobl sy’n Gadael Gofal o ran iechyd, cyflawniad addysgol, a mynediad i hyfforddiant a chyflogaeth, i gynorthwyo â’r gwaith o bontio i fyd oedolion cadarn a chynhyrchiol;

(d) Argymell ffyrdd y gellir datblygu gwasanaethau mwy integredig ym mhob un o Gyfarwyddiaethau'r Cyngor, ysgolion a rhanddeiliaid eraill â’r nod o sicrhau canlyniadau gwell i Blant sy’n Derbyn Gofal, Plant mewn Angen a Phobl sy’n Gadael Gofal.

(e) Sicrhau bod trefniadau ar waith i alluogi Plant sy’n Derbyn Gofal, Plant mewn Angen a Phobl sy’n Gadael Gofal i chwarae rhan hanfodol yn y gwaith o gynllunio a llunio gwasanaethau, a'u bod yn cael cyfle i ddweud ei barn a bod y farn honno'n cael ei dilyn.

(f) Sicrhau bod systemau monitro perfformiad ar waith, ac adolygu data perfformiad yn rheolaidd i sicrhau gwelliannau cyson o ran perfformiad mewn cysylltiad â chanlyniadau i Blant sy’n Derbyn Gofal, Plant mewn Angen a Phobl sy’n Gadael Gofal.

(g) Derbyn yr holl adroddiadau archwilio a blynyddol perthnasol y Gwasanaethau Plant, gan gynnwys:
Adroddiad Safonau Gofal Cartrefi Plant; Adolygiadau Ymarferion Achos, Adroddiad Blynyddol Safonau Gofal Maethu; Adroddiad Blynyddol Safonau Gofal Mabwysiadu a Maethu; Comisiynu 4C; Adroddiad Blynyddol y Tu Allan i’r Ardal; Adroddiad Blynyddol Dyfodol Disgleiriach (gydag addysg); adroddiadau Cwynion gan Blant; a’r Adroddiad Blynyddol ar Eiriolaeth;

(h) Adrodd i’r Cabinet o leiaf ddwywaith y flwyddyn,

(i) Gwneud argymhellion i’r Cabinet pan fo’r cyfrifoldeb am y swyddogaeth honno yn nwylo'r Cabinet;

(j) Adrodd i’r Pwyllgor Craffu Plant a Phobl Ifanc yn ôl yr angen;

(k) Argymell penodi aelodau cyfetholedig i'r Pwyllgor i'w cymeradwyo gan y Cyngor;

(l) Llunio a chyflawni rhaglen o ddigwyddiadau ymgynghori, gwrando ac ymgysylltu gyda Phlant sy'n Derbyn Gofal a Phobl sy'n Gadael Gofal, yn ogystal ag ymweliadau i wasanaethau sy’n cynnig cyngor a chymorth i Blant sy’n Derbyn Gofal, Plant mewn Angen a Phobl sy’n Gadael Gofal;

(m) Cyflwyno Adroddiad Blynyddol ar waith y Pwyllgor i’r Cyngor Llawn.

(n) Bydd gofyn i bob Aelod o’r Pwyllgor ddilyn hyfforddiant perthnasol i’w galluogi nhw i gyflawni eu dyletswyddau’n iawn.

**4 Enwebu ac Ethol Dirprwy Gadeirydd**

Enwebu ac ethol Dirprwy Gadeirydd

**5** **Datgan Buddiannau**

Dylid gwneud hyn ar ddechrau'r eitem agenda dan sylw, yn unol â'r Cod Ymddygiad Aelodau.

**6** **Cofnodion** *(Tudalennau 1 - 4)*

Cymeradwyo cofnodion y cyfarfod blaenorol fel cofnod cywir.

**7** **Archwiliad AGGCC Seibiant Byr Caerdydd yn Nhŷ Storrie**

Adroddiad Cyfarwyddwyr Cynorthwyol Gwasanaethau Plant (I ddilyn)
Bydd Bridgette Gater (Cyfarwyddwr, Gweithredu Dros Blant) yn bresennol yn y cyfarfod.

**8** **Cronfa Dydd Gŵyl Dewi – Dyfarnu Cyllid** *(Tudalennau 5 - 32)*

Adroddiad y Cyfarwyddwr Gwasanaethau Cymdeithasol

**9** **Eitem Addysg**

Bydd Gillian James (Arweinydd Cyflawni, Cau'r Bwlch) yn bresennol i roi unrhyw ddiweddariadau mewn perthynas â'r Adroddiad Perfformiad a'r Grant Datblygu Disgyblion.

**10** **Adroddiad Blynyddol Drafft**

(Adroddiad i ddilyn)

**11** **Corporate Eitem i'w Thrafod – Trosolwg/Rhaglen Waith y Pwyllgor Rhianta Ymgynghorol**

Darparu ymweliadau â phwyllgorau, rhaglen waith ac aelodau i aelodau (i ddilyn)

**GWAHARDD Y CYHOEDD**

**Mae eitem 13 yn gyfrinachol ac ni ddylai gael ei chyhoeddi yn rhinwedd paragraff 12 a 21 Rhannau 4 a 5 Atodlen 12A Deddf Llywodraeth Leol 1972. Caiff y cyhoedd eu gwahardd o'r cyfarfod pan gaiff yr eitem hon ei chyflwyno yn unol â'r un ddeddfwriaeth.**

**EITEMAU GWYBODAETH**

Cyflwynir y 5 eitem ganlynol i'r Pwyllgor ar sail eitemau gwybodaeth. Bydd cyfle i ofyn cwestiynau ynghylch yr adroddiadau a gyflwynwyd, os caiff yr atebion eu cynnwys fel rhan o'r cofnodion yn y cyfarfod nesaf.

**12** **Archwiliad AGGCC Crosslands** *(Tudalennau 33 - 48)*

Adroddiad Cyfarwyddwr y Gwasanaethau Cymdeithasol
Bydd Siobham Teague a'r tîm yn bresennol yn y cyfarfod.

13 **Adroddiadau Rheoliad 32** *(Tudalennau 49 - 100)*

**Ni ddylid cyhoeddi'r adroddiad a'r atodiadau hyn yn unol â Pharagraff 12 a 21 Rhannau 4 a 5, Atodlen 12A Deddf Llywodraeth Leol 1972 a chaiff y cyhoedd eu gwahardd o'r cyfarfod tra bydd yr eitem hon yn cael ei hystyried.**

14 **Gwasanaeth Maethu, Adroddiad Sicrwydd Ansawdd Blynyddol** *(Tudalennau 101 - 124)*

15 **Adroddiad ar Berfformiad: Chwarter 4 a'r alldro blynyddol** *(Tudalennau 125 - 142)*

16 **Adroddiad ar Gwynion: Chwarter 4 a'r alldro blynyddol** *(Tudalennau 143 - 150)*

17 **Dyddiad y cyfarfod nesaf**

Cynhelir cyfarfod nesaf y Panel Rhianta Corfforaethol Ymgynghorol ar 16 Ionawr 2018.

**Davina Fiore**
**Cyfarwyddwr Llywodraethu a Gwasanaethau Cyfreithiol**
Dyddiad: Dydd Mercher, 11 Hydref 2017
Cyswllt: Mandy Farnham, 02920 872618, Mandy.Farnham@caerdydd.gov.uk